

# F1. Rheoli prosiect

## Crynodeb o'r Uned

### Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â rheoli prosiect y rhoddwyd cyfrifoldeb amdano i chi. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynllun ar gyfer y prosiect a chytuno arno a monitro a rheoli gweithredu unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei amcanion allweddol ac yn cael ei gwblhau i foddhad noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol.

### Ar gyfer pwy mae'r uned hon?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr atebol cyntaf a rheolwyr canol.

### Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **F2. Rheoli rhaglen o brosiectau cyflenwol** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Hefyd ceir cyfres o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheoli prosiectau, wedi'i fwriadu ar gyfer y rheiny sydd â rolau rheoli prosiectau amser llawn neu'r rheiny y mae eu rolau'n cynnwys elfen sylweddol o reoli prosiectau. Gallwch gael gwybodaeth bellach oddi wrth Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianyddol (ECITB) rhif ffôn. 01923 260 000 neu yng ngwefan ECITB ([www.ecitb.org.uk](http://www.ecitb.org.uk)) **neu** oddi wrth y Gymdeithas Rheoli Prosiectau (APM) rhif ffôn. 0845 458 1944 neu yng ngwefan APM ([www.apm.org.uk](http://www.apm.org.uk)).

### Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth reoli prosiectau. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Gwerthuso
- Dirprwyo
- Cyfathrebu
- Gosod amcanion
- Gwneud penderfyniadau
- Arweinyddiaeth
- Cymell
- Trafod telerau

- Cynllunio
- Datrys problemau
- Rheoli gwybodaeth
- Bod â chynlluniau wrth gefn
- Rheoli risg
- Adolygu
- Ymgynghori
- Monitro
- Meddwl yn systematig

## F1. Rheoli prosiect

### Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Trafod amcanion allweddol a chwmpas y prosiect arfaethedig, a chytuno arnynt, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael, gyda noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol.
2. Nodi sut mae'r prosiect arfaethedig yn addas ar gyfer gweledigaeth, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad ac unrhyw raglenni gwaith neu unrhyw brosiectau eraill sydd ar waith.
3. Wrth ymgynghori â phobl berthnasol, datblygu cynllun realistig a thrylwyr i ymgymryd â'r prosiect a chyflawni'r amcanion allweddol.
4. Trafod cynllun y prosiect a chytuno arno â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol, gan wneud newidiadau lle bo angen.
5. Rhoi cyfarwyddyd i unrhyw aelodau tîm y prosiect ar gynllun y prosiect, eu rolau a'u cyfrifoldebau a darparu cefnogaeth, anogaeth a gwybodaeth barhaus.
6. Rhoi prosesau ac adnoddau ar waith i reoli risgiau posibl a allai ddeillio o'r prosiect a delio â phethau sy'n mynd o chwith.
7. Rhoi cynllun y prosiect ar waith, gan ddethol a defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau sylfaenol i reoli prosiectau, a thechnegau i fonitro, rheoli ac adolygu cynnydd.
8. Cyfleu gwybodaeth am gynnydd i noddwr/noddwyr y prosiect, unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol ac unrhyw aelodau tîm y prosiect yn rheolaidd.
9. Nodi, yng ngoleuni cynnydd, unrhyw broblemau y daethpwyd ar eu traws a datblygiadau ehangach, unrhyw newidiadau gofynnol i gynllun y prosiect, gan sicrhau bod noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol yn cytuno ar hyn os bydd angen.
10. Cyflawni amcanion y prosiect gan ddefnyddio'r lefel o adnoddau y cytunwyd arni.
11. Cadarnhau â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol bod y prosiect wedi'i gwblhau yn foddhaol.
12. Gwerthuso llwyddiant y prosiect, gan nodi pa wersi y gellir eu dysgu a chydabod cyfraniadau unrhyw aelodau o dîm y prosiect.

## **Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol**

1. Byddwch yn adnabod newidiadau mewn amgylchiadau yn ddiymdroi ac yn addasu cynlluniau a gweithgareddau yn unol â hynny.
2. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
3. Byddwch yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur, yn gryno, yn fanwl-gywir ac mewn ffyrdd sy'n hybu dealltwriaeth.
4. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
5. Byddwch yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf, ac yn mynd ati i ddod o hyd i ffynonellau cefnogaeth newydd pan fydd angen.
6. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
7. Byddwch yn effro i risgiau a pheryglon posibl.
8. Byddwch yn ymfalchio mewn cyflenwi gwaith o ansawdd uchel.
9. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.

## F1. Rheoli prosiect

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

### Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Nodweddion sylfaenol prosiectau o'u cymharu â swyddogaethau/ gweithgareddau arferol rheolwyr
2. Rôl a chyfrifoldebau allweddol rheolwr prosiect
3. Cyfnodau allweddol yng nghylchred bywyd y prosiect
4. Pwysigrwydd y berthynas rhwng rheolwr y prosiect a noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol
5. Pam ei bod yn bwysig trafod a chytuno ar amcanion allweddol a chwmpas prosiect arfaethedig â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol cyn i'r cynllunio manwl ddechrau
6. Y math o wybodaeth sy'n ofynnol i gynllunio prosiect yn effeithiol
7. Pam ei bod yn bwysig gallu nodi a deall sut mae prosiect yn addas ar gyfer gweledigaeth, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad ac unrhyw raglenni gwaith neu brosiectau eraill sy'n cael eu cynnal
8. Pam ei bod yn bwysig ymgynghori â phobl berthnasol wrth ddatblygu cynllun prosiect a sut i wneud hyn yn effeithiol
9. Beth y dylid ei gynnwys mewn cynllun prosiect, yn enwedig gweithgareddau, adnoddau gofynnol ac amserlenni a pham fod angen trafod a chytuno ar y cynllun â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol
10. Pam ei bod yn bwysig bod unrhyw aelodau o dîm y prosiect yn cael cyfarwyddyd ar gynllun y prosiect, eu rolau a'u chyfrifoldebau a sut i'w cyflawni yn effeithiol
11. Ffyrdd o ddarparu cefnogaeth, anogaeth a gwybodaeth barhaus i unrhyw aelodau o dîm y prosiect
12. Ffyrdd o nodi a rheoli risgiau posibl mewn perthynas â'r prosiect
13. Pwysigrwydd bod â chynlluniau wrth gefn a sut i wneud hyn yn effeithiol
14. Sut i ddedol o blith amrywiaeth o ddyfeisiau sylfaenol a thechnegau a'u defnyddio i fonitro, rheoli ac adolygu cynnydd y prosiect
15. Ffyrdd effeithiol o gyfathrebu â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol yn ystod prosiect
16. Pwysigrwydd cytuno ar newidiadau i gynllun y prosiect â noddwr/noddwyr y

prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol

17.Y math o newidiadau a allai fod yn ofynnol i gynllun prosiect wrth ei roi ar waith

18.Pam ei bod yn bwysig cadarnhau bod y prosiect wedi'i gwblhau yn foddhaol â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol, a sut i wneud hyn yn effeithiol

19.Sut i sefydlu systemau effeithiol i werthuso llwyddiant prosiectau a nodi gwersi i'r dyfodol

20.Pwysigrwydd cydnabod cyfraniadau aelodau tîm y prosiect at lwyddiant prosiectau, a gwahanol ffyrdd o wneud hyn

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector**

1. Dyfeisiau a thechnegau rheoli prosiect a ddefnyddir yn gyffredin yn y diwydiant neu'r sector
2. Pethau a all fynd o chwith a risgiau sy'n gyffredin yn y diwydiant/sector
3. Deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer sy'n benodol i'r sector/diwydiant

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun**

1. Noddwr/noddwyr y prosiect - yr unigolyn neu'r grwp y mae'r prosiect yn cael ei gynnal ar ei ran/ eu rhan
2. Budd-ddeiliaid allweddol – yr unigolion neu'r grwpiau sydd â budd personol o lwyddiant y prosiect a'r sefydliad
3. Amcanion allweddol a chwmpas cytunedig y prosiect arfaethedig a'r adnoddau sydd ar gael
4. Gweledigaeth gyffredinol, amcanion a chynlluniau'r sefydliad ac unrhyw raglenni gwaith eraill perthnasol neu brosiectau eraill sydd ar waith
5. Mecanweithiau ar gyfer ymgynghori ar ddatblygiad cynllun y prosiect a'r safbwyntiau/barn a dderbyniwyd oddi wrth bobl berthnasol o ran cynigion
6. Cynllun cytunedig y prosiect
7. Rolau a chyfrifoldebau unrhyw aelodau o dîm y prosiect
8. Dulliau a ddefnyddir i gyfarwyddo, cefnogi, annog a darparu gwybodaeth i unrhyw aelodau o dîm y prosiect
9. Prosesau ac adnoddau sydd ar waith i reoli risgiau posibl a delio â phethau a all fynd o chwith
- 10.Math a natur risgiau posibl a nodwyd a phethau a aeth o chwith
- 11.Dyfeisiau a thechnegau penodol i reoli prosiectau a ddefnyddir i fonitro, rheoli

ac adolygu cynnydd

12. Prosesau sydd ar waith i gyfleu gwybodaeth am gynnydd y prosiect i noddwr/noddwyr y prosiect, unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol ac unrhyw aelodau o dîm y prosiect
13. Prosesau sydd ar waith i nodi a chytuno ar newidiadau i gynllun y prosiect ac unrhyw newidiadau a wnaed
14. Prosesau ar gyfer cadarnhau â noddwr/noddwyr y prosiect ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol bod y prosiect wedi'i gwblhau yn foddhaol
15. Prosesau ar gyfer gwerthuso llwyddiant y prosiect ac unrhyw wersi a ddysgwyd yn sgîl ymgymryd â'r prosiect
16. Dulliau a ddefnyddir i gydnabod cyfraniadau unrhyw aelodau o dîm prosiect at brosiectau llwyddiannus